# PWY SY'N COFIO PAUL ROBESON?

Gan DAFYDD GUTO



AR HAP a damwain, fel mae'n digwydd bod, a hynny tra'n cribinio mewn siop lyfrau ail-law ym Mae Colwyn am rywbeth heb fod o ddifrifol bwys, y bu imi daro ar bwt o gerdyn post du a gwyn a oedd yn cynnwys llun ac ychydig o hanes yr actiwr a'r canwr bâs Americanaidd, Paul Robeson. Darlun ifanc ohono hefyd, a marc post ar gefn y cerdyn yn cyfleu i'r dim mai yn y flwyddyn 1943 y danfonwyd y cerdyn at gâr a chydnabod.

Yn Princeton, Jersey Newydd, UDA, y ganed Paul Robeson ar y 9fed o Ebrill 1898. Ei dad oedd y Parch W. D. Robeson, a oedd, fel brawd Paul Robeson, yn weinidog gyda'r Wesleaid.

Nid yw'r darlun yn fy meddiant yn cyfleu dim byd oll am y gwewyr a'r trallod a fu ym myd Paul Robeson. Nid yw'n cyfleu dim byd am yr erledigaeth a fu arno. Dyn sy'n creu Uffern; dyn bob amser sy'n achosi anesmwythyd a dioddefaint mewn hyn o fywyd. Dyn yw'r diawl yn aml. Mae gwên Paul Robeson, fodd bynnag, yn adrodd cyfrolau.

Diddorol yw nodi fod Paul Robeson pan oedd yn ifanc yn ymddiddori ym myd mabolgampau a phêl-droed Americanaidd a maes o law y bu iddo raddio yn y Gyfraith. Ond yn 1921 rhoddodd ei fryd ar fynd i fyd y llwyfan ac ymhen amser mentrodd i fyd ehangach y ffilmiau. Yr oedd dyddiau Coleg Rutgers a Phrifysgol Columbia ar ben.

Simon y Cyrenian oedd ei ran gyntaf mewn drama, ond yn 1925 ymddangosodd yn y ffilm *Body and Soul.* Nid oedd ond corff a wyneb — dim byd mwy yn y ffilm yma. Cyn bo hir, dechreuodd deithio ar hyd a lled America yn canu bâs mewn cyngherddau, a daeth i amlygrwydd gyda'r gân *'Old Man River'.* Teithiodd i Ewrob ac yn nhridegau'r ganrif bresennol ymwelodd â Chymru.

* * * *

YN 1939 y ffilmiwyd *'The Proud Valley'.* Teithiodd Paul Robeson o Efrog Newydd i Lundain a dechrau gweithio yn Stiwdio Ealing. Cefndir y ffilm oedd diweithdra glöwyr a'u teuluoedd yn y Rhondda; cyfunwyd caru a chanu, a mentrwyd i fyd yr Eisteddfod.

Dechreuwyd cynhyrchu'r ffilm ym mis Awst gan ganolbwyntio ar Bontypridd, Maerdy a Chastell Caernarfon. Yr oedd yr actorion yn cyd-fyw â phentrefwyr y Cymoedd. Cafodd Paul Robeson groeso brwd dros ben.

Erbyn yr ail o Fedi, 1939, fe gwblhawyd y ffilmio. Yr ydym bellach ar drothwy'r Ail Ryfel Byd. Dangoswyd y ffilm am y tro cyntaf yn Theatr Sgwâr Caerlŷr, Llundain ar Fawrth yr 8fed, 1940. Paul Robeson oedd yr arwr yn y ffilm; un a chwenychai ddangos aberth ei gyd-frodyr o Gymry. Dysgodd rywfaint o Gymraeg yn ôl pob sôn. Actores amryddawn a gyd-actiodd ag ef yn y ffilm yw Rachel Thomas.

Meddai Paul Robeson, yn ddiweddarach yn ei fywyd, am *'The Proud Valley'*: 'It was the one film I could be proud of having played in. That, and the early part of *'Song of Freedom'* (1936).

Ond fel y gwyddys bu i Paul Robeson ymweld â Rwsia. Yr oedd hynny fel cadach goch tanllyd i'r Awdurdodau yn America. Fe'i condemniwyd yn hallt ac ar ben hynny 'roedd yn groenddu ac 'roedd rhai gwybodusion o'r farn ac yn coleddu'r syniad ei fod yn ochri'n ormodol hefo'r bobl dduon yn yr Amerig.

Difrïwyd. Damniwyd. Fe aethom ninnau fel Cymry da ein gair a'n buchedd i ddilyn llais y Brawd Mawr yn yr America. Wyddoch chwi fod deiseb ar gerdded yma yng Nghymru ar un amser; deiseb yn ceisio gwahardd Paul Robeson druan rhag ymweld â'r henwlad.

Ond yn 1958 daeth tro ar fyd. Ail-ddychwelodd y canwr a'r actiwr i wlad ein cyn-dadau. Ymwelodd ag Eisteddfod y Glöwyr ym Mhorthcawl ac ym mis Awst yr un flwyddyn troediodd faes y Brifwyl yng Nglynebwy.

Cyflwynwyd llyfr emynau Cymraeg iddo fel cof-anrheg bychan. Derbyniodd y cawr o ganwr y rhodd â gwên fawr agored a mwynhaodd y Gymanfa Ganu yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

* * * *

CYFLWYNO cyfrol o waith T. H. Parry-Williams i Cassius Clay (Mohamad Ali) a wnaeth y gŵr talentog o Langefni, Ynys Môn, sef Hywel Gwynfryn. *'Gee,'* meddai Ali, *'I know the guy.'*

Tamaid o gerdyn a darlun o Paul Robeson arno sydd gennyf i; golyga dipyn i genhedlaeth sy'n prysur ddarfod yng Nghymru bellach.

Ond mae'r cof yn aros, a phwt o gerdyn post du a gwyn a sbardunodd y cof hwnnw. Cof am yr erlid a'r cam-drin a'r croeso brwdfrydig yn 1958.

Yn 1976 bu farw Paul Robeson; marw unig a di-sôn. Yn 1958 y daeth Gwobr Heddwch Stalin i'w ran — gwobr y llawn haeddai.

Ys gwn i faint o lyfrau sydd gan ddarllenwyr *Y Casglwr* sy'n ymdrin â'r gwrthrych; faint o'i recordiau sy' gennych yn eich casgliad? Dyna gwestiwn neu ddau na allaf eu hateb. Dim ond chwi a ŵyr yr atebion, onidê?

FFYNONELLAU


*Y Cymro*, Awst 7, 1958, t.1 a 7;

*Y Cymro*, Ionor 27, 1976, t.1, 'Marw Paul Robeson'.

Davies, T. J., 'Ar drywydd Paul Robeson gyda'r Cymry ar Wasgar'; *Barn*, Gorffennaf/Awst 1978, tt.255-6.

Davies, T. J., *Paul Robeson.* Abertawe: Christopher Davies, 1981; t.214; darl.

Davis, Lenwood G., 'A Paul Robeson Research Guide: a selected annotated. Westport: Conn/Llundain. Greenwood, 1982; xxv, 879t.

Hoyt, Edwin P., *Paul Robeson.* Llundain: Cassell, 1967; t.228.

Seton, Marie, *Paul Robeson.* Llundain: Denis Dobson, 1958; t.254.

*Who Was Who, 1971-80*, t.676

Foner, Philip S. (Gol.), *Paul Robeson speaks: writings, speeches, interviews, 1918-1974.* Llundain: Quartet Books, 1978; xvii; t.623.


## Y diweddar JOHN WILLIAMS HUGHES yn cofio am

# YR HEN OLYGYDD

UN O gymwynaswyr mawr Môn oedd E. O. Jones, golygydd *Y Clorianydd* pan oeddwn blentyn; 'roedd yn gyfaill ac yn gefn i bob un ohonom.

Awn yn yr awr ginio o'r ysgol i'w Swyddfa yn Stryd y Bont yn Llangefni — yn wir 'roedd ei Swyddfa ar y bont, awn gyda rhyw rigwm y buaswn gywilydd ei ddangos i un llai didwyll. Er mai plentynnaidd iawn fyddai'r darn fe gawsai E. O. Jones ynddo rywbeth i'w ganmol, ac ymddangosai ambell ddarn, wedi ei gaboli ganddo, uwchben ein henwau yn *Y Clorianydd.*

Ymddengys mai am angau neu gariad y byddem ni blant y cyfnod hwnnw'n barddoni! Profiad hyfryd fyddai gweld rhywbeth o'n gwaith yn y papur wythnosol.

'Doedd swyddfa'r *Clorianydd* ond un ystafell fechan, a honno'n lleihau fel y rhoid un papur plygiedig ar ben y llall yn bentyrrau; pentwr newydd yn cychwyn fel y cyrhaeddai'r llall y nenfwd — hawdd credu fod y papurau yn y corneli yn croniclo digwyddiadau ddechrau'r ganrif.

* * * *

EISTEDDAI wrth ei fwrdd golygyddol yn ei het galed a'i gôt fawr laes, y gôt a'r het yn graddol droi'n wyrdd, ond nis gwelais o hebddynt na haf na gaeaf — menyg gwlân cartref am ei ddwylo fel y torrai ddarnau o'r papurau Saesneg i'w cyfieithu ar gyfer Môn pe na ddigwyddai pethau digon cyffrous ar yr ynys i lenwi'r *Clorianydd* yr wythnos honno.

Dangosodd ei ymddiriedaeth ynof unwaith trwy ofyn imi gyfieithu darn iddo o'r Saesneg — o hyfryd ddydd oedd hwnnw!

Gwisgai'r het a'r gôt gan ei bod yn aeaf drwy'r flwyddyn yn y swyddfa ddi-haul uwch Afon Cefni. I'w galon yn unig y deuai'r gwanwyn, a dim ond o'i lygaid y llifeiriai haul yr haf.

'Doedd ei glyw ddim yn dda ar y gorau, a rhaid fyddai gweiddi wedi glawogydd i drechu sŵn yr afon dan ein traed.

Wrth y drws 'roedd ei feic, ac âi'n gyflym i unrhyw gwr o'r ynys pe digwyddai rhywbeth mwy annisgwyl na phriodas neu angladd.

Ni welid modfedd o wyneb ei fwrdd — pot pâst mawr ar ei ganol, geiriaduron, llyfrau barddoniaeth Cymraeg a Saesneg, a llawer llyfr arall ar gau ac agor — ond gallai roi ei fys ar unrhyw beth a fynnai.

* * * *

'ROEDD y gohebwyr lleol, di-dâl ond nid di-dramgwydd, yn hollol angenrheidiol i'r *Clorianydd* er iddynt drethu amynedd y golygydd amyneddgar weithiau.

Llifai darnau cellweirus i law ar gyfer colofn ddigrif Rhys Dafydd, ac ofnai pawb weld ei enw yn honno wedi rhyw ddigwyddiad trwsgl. Bu'n rhaid rhoi gorau i'r golofn honno ymhell cyn marw'r *Clorianydd* gan fod yr oes fodern yn fwy croen-denau na'r un o'i blaen. O dro i dro byddai'r newyddion mor anhygoel nes amau ai i golofn Rhys Dafydd y'u bwriadwyd.

'Roedd gan y golygydd stoc o benawdau at bob achlysur — *Marw Cymydog Da; Uno Dau Deulu Adnabyddus; Marw Mam yn Israel; Dyrchafiad i Fachgen Lleol; Marw Un o Golofnau'r Achos.*

Ceisiai adael allan enwau'r rhai a anfonai flodau i angladdau'r Sir ond mynnai'r gohebwyr lleol fod y *Clorianydd* yn cynnwys y cwbl — er i hynny fel afer olygu ymddiheuro yn y rhifyn dilynol am adael enw rhywrai allan.

Weithiau diweddai hanes priodas gyda'r frawddeg drist: ''Roedd yr anrhegion yn niferus a gwerthfawr' — ffordd Sir Fôn o ddweud na dderbyniwyd digon i'w rhestru!